



Capel Y Tabernacl Efail Isaf Cyhoeddiadau Rhagfyr 4ydd 2016

ELUSENNAU 2016

Gair i'ch atgoffa bod angen cyflwyno eich amlenni brown cyn diwedd y flwyddyn er mwyn i ni fedru cyfrannu'n deilwng i'r elusennau ddewiswyd gennym ar gyfer eleni. Bu crynodeb o'u gwaith yn y taflenni wythnosol yn ystod y flwyddyn.

Gallwch ddarllen am waith y pum elusen mewn ebost diweddar ac ar wefan y capel:
www.tabernacl.org

CYFRIFON Y CAPEL

Cofiwch y bydd llyfrau ariannol y capel yn cau'n brydlon ar ddiwedd y flwyddyn.

Tafod y Tab

Diolch yn fawr i Ann ac Emlyn am fodloni cymryd cyfrifoldeb dros gyhoeddu'r **Tafod y Tab nesaf**. Daeth yn amser paratoi'r rhifyn nesaf i'w gyhoeddi ddiwedd Ionawr. Mae croeso i unrhyw aelod anfon erthyglau / newyddion / lluniau / cyhoeddiadau i'w cynnwys y tro hwn. Rydym yn anfon atoch mewn da bryd i chi gael casglu deunydd ynghanol prysurdeb tymor y Nadolig. Anfonwch unrhyw dro, ond *ar yr hwyraf erbyn Ionawr*

3ydd, 2017 at emlyn.davies@which.net
neu ann.pentyrch@btinternet.com

Mae rhifyn newydd o'r cylchgrawn
AGORA ar
www.cristnogaeth21.cymru

YSGOL TŶ COCH

un arall o elusennau 2016
Mae'r ysgol, yn Nhonteg, yn darparu addysg bwrpasol, berthnasol, bersonol, i blant 3-19 oed sydd ag anawsterau dysgu dwys, a hynny mewn awyrgylch ddiogel, ofalgar sy'n eu hysgogi i gyrraedd eu potensial.

CYNLLUN NADOLIG YR YSGOL SUL

Apêl Cawell Elusen i elusen ADREF Wnewch chi gefnogi'r di-gartref yn Rh.C.T. y Nadolig hwn trwy gyflwyno eitemau i'r Ysgol Sul i'w rhoi mewn cewyll? Byddem yn gwerthfawrogi: Bwyd sy'n cadw, bwyd mewn tuniau (yn cynnwys cig neu bysgod), siocled a danteithion Nadolig, jamiau a siytnei, te, coffi, siocled yfed, llaeth sych, pot nŵdls, sudd ffrwythau, sgwash, creision, deunydd ymolchi, eitemau hylendid merched, anrhegion Nadolig plant (wedi eu lapio gan nodi'r oedran, a ph'run ai i fachgen neu ferch.) Rhagor o fanylion gan Beth Reynolds ac athrawon yr Ysgol Sul



Cofiwch fod pob gwybodaeth am fywyd yr eglwys ar gael ar y wefan, www.tabernacl.org ac os hoffech chi ragor o fanylion am unrhyw agwedd, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwilym Huws: [gehpengwern@yahoo.co.uk/](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) 07710 237327



Bydd **band** yn chwarae ar fore Sul Rhagfyr 18ed. Os oes oedolion neu bobl ifanc a hoffai chwarae mewn band – gan gael copiau wythnos o flaen llaw – plis rhowch wybod i carolinerees2@hotmail.com
Croeso i gitar, recorder, ffidil, triongl, bongo drums

Cefnogaeth Nadolig y Capel i bobl ifanc sy'n gadael gofal

Eleni eto byddwn yn cyflwyno talebau gwerth £20 yr un i'r bobl ifanc sy'n gadael gofal, drwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Y gobaith ydy helpu 25 o bobl ifanc. Golyga hyn y bydd angen codi £500. Unwaith eto, rydyn ni'n dibynnu'n ffyddiog ar eich haelioni chi er mwyn gwireddu hyn ac yn gofyn yn garedig i chi gyfrannu'n ariannol drwy law John Llewellyn Thomas, Gill Rees a Sylvia Davies. Diolch yn fawr.

Merched y Tab

Bore Gwener Rhagfyr 9fed

am 10.30

Yng Nghanolfan Arddio

Pugh's.

Hoffech chi gyflwyno

myfyrdod yn 2017?

Os hoffech gael cyfle i gymryd rhan arweiniol mewn oedfa yn ystod 2017, mynnwch air gyda

Geraint Rees.

geraintrees@hotmail.com

Y Suliau Nesaf

Rhagfyr 11eg – Oedfa

Nadolig y Plant gyda Lowri Roberts, cyfeiliant ysgol sul

Rhagfyr 18fed – Y Twmiaid gyda Gwerfyl a Heulyn

Cyfeiliant: Caroline a Band

Rhagfyr 24ain – cwrdd am 11 yr hwyr

Rhagfyr 25ain – cwrdd byr bore Sul Nadolig. 0930. Y

plant i ddod ag anrheg maen nhw wedi ei dderbyn

Ionawr 1 – Criw Efail Isaf Uchaf

Ionawr 8ed – Y Parch Aled Edwards



DIOLCH wrth y Banc Bwyd

Diolch yn fawr i'r criw selog fu'n helpu aelodau Bethel Pontyclun unwaith eto gyda'u casgliad ar gyfer Banc Bwyd Pontyclun yn Tesco Tonysguboriau dros y tridiau diwethaf. Roedd dros ugain o wirfoddolwyr o'r Tabernacl yno, ar wahanol shifftiau, ac mae'r trefnwyr bob amser yn gwerthfawrogi ein cefnogaeth.

Newyddion Da

Ers diwedd yr haf, mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr wedi bod yn hysbysebu am olynedd i Ann Dixey, a fydd yn ymddeol ddiwedd Rhagfyr.

Mae'n braf felly medru cyhoeddi ein bod bellach wedi llenwi'r swydd. O 1 Ionawr 2017 bydd **Ioan Rees** yn gweithredu fel Gofalwr y Safle, ac mae Caroline a Geraint Rees wedi cytuno'n garedig iawn i ofalu am y dyletswyddau gweinyddol megis derbyn 'bookings'. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth megis y manylion cyswllt cyn diwedd Rhagfyr.

Ar ran yr eglwys mae'r Bwrdd am longyfarch Ioan a diolch iddo am ei barodrwydd i ymgymryd â'r dyletswyddau pwysig hyn. Dymunwn yn dda iddo yn y swydd.

ON Daw cyfle ym mis Ionawr i'r eglwys ddiolch i Ann Dixey am ei gwasanaeth gwerthfawr hi dros gyfnod o naw mlynedd a dymuno'n dda iddi ar ei hymddeoliad.



Enwau Strydoedd Lleol

Ydych chi'n gwybod am enwau cynhenid ar strydoedd yn ardal Rhondda, Cwm Cynon a Thaf Elái? ... y rhai sydd wedi'u disodli, llygru neu ddiplannu dros y blynyddoedd?

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn awyddus I glywed oddi wrthoch chi. Mae'r cyngor eisiau parchu'r enwau a fu wrth ddodi enwau dwyieithog ar y rhai sydd yn uniaith Saesneg ar hyn o bryd wrth adnewyddu arwyddion. Ni fydd cyfieithiad i'r Saesneg ble mae enw uniaith Gymraeg yn bodoli a bydd enwau strydoedd newydd yn Gymraeg yn unig yn y dyfodol.

Rhowch wybod ar frys i Swyddog Iaith y cyngor swyddogiaith@rctcbc.gov.uk / 01443 744069.

Diolch am eich cymorth!



Bore Noswyl Nadolig

O 10.30 i 12 o'r gloch ar fore'r 24ain, bydd te, coffi a chacen yn y Ganolfan. Bydd croeso i bawb – teuluoedd a phobl o bob oed. Os fydddech yn barod i wneud cacen, plis rhowch wybod i Caroline Rees, y bore 'ma neu ar carolinerees2@hotmail.com

Babis bach!

Llongyfarchiadau i Sian Fudge ar enedigaeth tripledi ar ddydd Mercher yr 16eg Tachwedd sef Hywel, Islwyn a Sior. Mae Siencyn wrth ei fodd a'i rol o fod yn frawd mawr.

